


I lawr trwy'r to

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Yn y Beibl darllenwn am ddyn oedd yn dibynnu llawer ar ei ffrindiau. Ni allai unrhyw beth eu rhwystro rhag mynd ag ef at Iesu..




Roedd yna ddyn na allai gerdded ac arferai orwedd ar ei fat bob dydd. Clywodd fod Iesu'n gallu iacháu pobl oedd yn wael. Un diwrnod daeth Iesu i dŷ yn y dref. "O mi fuaswn i wrth fy modd petawn i'n cael mynd i weld Iesu," meddai'r dyn oedd wedi'i barlysu yn ddigalon.




Dyweddodd ei ffrindiau, "Wnawn ni dy gario di yno. Gall Iesu dy wella di. Mae'n rhaid i ti gael gweld Iesu. Dalia'n dynn yn dy fat." Dyna nhw'n codi ei wely ac i fwrdd â nhw i weld Iesu.



Pan gyrhaeddodd nhw'r tŷ roedden nhw'n methu'n glir â mynd i mewn. Doedd dim lle yno o gwbl. "Mae gennym ni syniad," meddai ffrindiau'r dyn. "Wnawn ni ddringo'r grisiau sy'n arwain i'r to." Dalia'n dynn, medden nhw unwaith eto.



Gwnaeth ei ffrindiau dwll yn nho'r tŷ. Edrychodd nhw i lawr ac edrychodd y bobl tu mewn i fyny'n syn arnyn nhw. Gallai ffrindiau'r dyn weld Iesu hefyd!



Yn ofalus dyna nhw'n gostwng y dyn â rhaffau i'r llawr. Symudodd y bobl yn ôl i wneud lle iddo. Glaniodd y dyn reit o flaen Iesu. Gwenodd Iesu arno.



"Beth wyt ti eisiau?" gofynnodd Iesu iddo. "O Iesu, dwi eisiau gallu cerdded. Rydw i'n gwybod dy fod ti'n gallu iacháu pobl. Pŵs helpa fi?"



"Saf ar dy draed. Coda dy wely a cherdda," meddai Iesu. Safodd y dyn nad oedd erioed wedi cerdded o'r blaen ar ei draed. Neidiodd! Dawnsiodd! Rhedodd! Gwaeddodd, "Diolch i ti Dduw. Diolch i ti Iesu."